

Cynnau Goleuadau Nadolig y Rhyl

Mae'r Rhyl wedi dechrau cyfri'r dyddiau tan y Nadolig ar ôl cyhoeddi dyddiad ac artistiaid digwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig.

Bydd y dref yn disgleirio i gyd pan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu cynnau ar 2 Rhagfyr, a bydd Reggie 'n' Bollie, sêr rhaglen deledu X-Factor, yn ymuno â Maer Tref y Rhyl, y Cynghorydd Alan James, i ddechrau'r dathlu.

Mae Reggie 'n' Bollie (Menn on Pointt gynt), sef Reggie Zippy a Bollie Babeface, yn ddeuawd cerddorol o Ghana. Bu iddyn nhw ffurfio yn 2012 ac fe ddaethon nhw'n ail yng nghystadleuaeth X-Factor 2015.

Bydd adloniant y prynhawn yn cychwyn ar y Stryd Fawr tua 2.30pm ac yn gorffen gydag ychydig o dân gwyllt am 5pm.

Bydd nifer o enwogion eraill yn ymuno â'r ddeuawd boblogaidd, gan gynnwys cast pantomeim Sleeping Beauty (Vicky Entwistle, Amy Thompson, Sarah-Jane Buckley, Sean Jones a Charles Burden), Sam Lavery a Christian Burrows (cystadleuwyr X-Factor), Contagious (band pop lleol) a Caz McElroy (cantores).

Bydd yna hefyd ddiddanwyr stryd wedi gwisgo i fyny, cerddwyr stiltiau, plygwyr balwnau a mwy o gymeriadau mewn gwisgoedd tymhorol.

Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu gan Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth Cyngor Tref y Rhyl.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chanolfan Groeso'r Rhyl ar 01745 355068